

BYDD y Rhyl yn llawn lliw a hwyl gyda chyfres o ddigwyddiadau am ddim wedi eu cynllunio dros y 12 mis nesaf.

Gemau, cerddoriaeth, adloniant a sioeau – dim ond rhai o’r gweithgareddau a fydd yn digwydd ar y stryd fawr yn y dref.

Bydd syrzas deithiol undydd yn cynnig holl hwyl y ffair ym mis Gorffennaf. Bydd gan y digwyddiad rywbeth i’r teulu cyfan gan gynnwys modelu balw̄ns, artist hula hoop, drychau gwirion, gweithdai syrzas a hud a lledrith, perfformiadau Pwnsh a Jwdi a peintwyr wynebaw. Bydd meistr y sioe, ar ystudfachau, yn cadw trefn ar bethau.

Bydd gwrrachod a digwyddiadau dychrynlyd ar gyfer Calan Gaeaf a bydd Rocking Rhyl yn taro’r nodau cywir ym mis Rhagfyr gyda disgo am ddim i blant lleol ac ymweliad gan westai addas iawn.

Meddai Maer y Rhyl, y Cynghorydd Win Mullen-James: “Mae holl ddigwyddiadau’r cyngor tref yn rhad ac am ddim, yn cynnig adloniant gwych a rhywbeth gwahanol i drigolion ac ymwelwyr.

“Bydd gennym actau a gweithgareddau nad ydynt wedi bod yn yr ardal o’r blaen ac, ynghyd â’r prif ddigwyddiadau, byddwn yn dod ag adloniant ysgafn i ganol y dref dros y Pasg a Chalan Gaeaf.

“Mae ein digwyddiadau cymunedol wedi eu cynllunio o gwmpas digwyddiadau mwy y Rhyl, gan sicrhau bod rhywbeth fwy neu lai yn digwydd trwy gydol y flwyddyn. Mae gennym lawer i edrych ymlaen ato eto eleni.”



Dyddiadau'r digwyddiadau yw:

Y Pasg – Cyfarfod y Sgwarnogod ar Ystudfachau

Dydd Sadwrn Ebrill 20fed 11am-2pm

Stryd Fawr y Rhyl

Dyma ni! Mae'r Sycas yn dod i'r dref

Dydd Sadwrn Gorffennaf 13eg 11am-4pm

Stryd Fawr y Rhyl

Calan Gaeaf

Gwrachod a Digwyddiadau Dychrynlyd

Dydd Iau Hydref 31ain Amser i'w gadarnhau

Stryd Fawr y Rhyl

Y Nadolig

Rocking Rhyl – disgo i'r plant

Dydd Sadwrn Rhagfyr 7fed 3pm-5pm

Neuadd y Dref, y Rhyl

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar y digwyddiadau, dilynwch

@RhylTownCouncil ar Facebook

a Twitter a @rhyltowncouncil ar Instagram

